Polisi Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Adol.	Dyddiad	Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid		Y Dyddiad Adolygu
1.	05/11/2018	Polisi a phroses wedi'i ddiweddaru		3 Blynedd
2.	05/06/2026	Newidiadau golygyddol yn adlewyrchu gwasanaeth Ymbarél yn bennaf		3 Blynedd
Y Swyddog Polisi		**Yr Uwch Swyddog Cyfrifol**	**Cymeradwywyd gan**	**Y Dyddiad**
Prif Swyddog Pobl		Uwch Swyddog yr AD	Fforwm Undebau'r Campws	05/11/2018
			Grŵp Strategaeth AD	08/06/2026

Pwrpas y Polisi

Sefydlwyd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) o dan Ddeddf Amddiffyn Rhyddid 2012 ac mae'n cyfuno swyddogaethau a oedd yn cael eu cynnal yn flaenorol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA).

Diben y polisi hwn yw nodi'r gweithdrefnau sydd gan y Brifysgol ynglŷn â defnyddio gwiriadau Datgelu a Gwahardd wrth recriwtio staff.

Mae'r polisi yn cwmpasu pob gwiriad DBS staff, gan gynnwys y myfyrwyr hynny sy'n cael eu cyflogi fel staff gan y Brifysgol neu'n cymryd rhan mewn rolau gwirfoddoli yn y Brifysgol lle mae gwiriad yn ofynnol ac mae'n cael ei reoli'n ganolog gan yr Adnoddau Dynol. Mae'r polisi'n cefnogi proses sy'n galluogi'r Brifysgol i recriwtio staff sydd wedi ei seilio ar feini prawf gwrthrychol sy'n deg ac yn gyfiawn a heb ragfarn.

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff a gyflogir fel staff a recriwtiwyd yn fewnol ac yn allanol i'r Brifysgol, ar gontractau parhaol a chyfnod penodol, sydd angen gwiriad y DBS fel rhan o'u cyflogaeth yn y Brifysgol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unigolion sy'n cymryd rhan mewn rolau gwirfoddoli ar ran yr Brifysgol lle mae gwiriad yn berthnasol.

Y Cyfrifoldeb

Cyfrifoldeb y Prif Swyddog Pobl, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth Cynhwysiant a Lles a'r Pwyllgor Gweithredu yw gweithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn ar draws y Brifysgol.

Mae Deoniaid y Colegau, Penaethiaid yr Ysgolion a Phenaethiaid Gwasanaethau Proffesiynol yn gyfrifol am weithredu a rhannu'r polisi yn y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Yr Egwyddorion Craidd

1. Bydd y Brifysgol yn defnyddio darparwr gwasanaeth Ymbarél i wneud gwiriadau Gwasanaeth Datgymalu a Rhybuddio (DBS) er mwyn cael gwybodaeth i allu asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer swyddi sy'n gweithio gyda grwpiau bregus neu mewn swyddi o ymddiriedolaeth, a diweddaru'r gwiriadau hyn bob 3 blynedd.
2. Bydd y Brifysgol yn parhau i fod yn ymwybodol o'r ddyletswydd gofal sydd arni a'r rhwymedigaethau cyfreithiol eraill megis y rheiny sydd arni o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (2016/679 UE), Deddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Amddiffyn Rhyddid 2012) a Deddf Cydraddoldeb 2010.

3. Mae'r Brifysgol yn cydnabod, er ei bod o dan rwymedigaeth i gael datgeliadau gan y DBS ar gyfer rhai staff a myfyrwyr, mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd a hynny'n seiliedig ar asesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â'r rolau a'r gweithgareddau penodol sy'n cael eu cyflawni a chydnabod y terfynau cyfreithiol ar yr amrywiol swyddi y ceisir gwiriadau ar eu cyfer.
4. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gwiriadau'r DBS yn cael eu cynnal a'u prosesu'n broffesiynol, yn amserol ac yn ymatebol a'u bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyflogaeth bresennol.
5. Bydd y Brifysgol yn cydymffurfio â egwyddorion cod ymarfer y DBS wrth brosesu data fel rhan o weithdrefnau gwirio'r DBS gan gynnwys storio, trin, defnyddio, cadw a gwaredu datgeliadau'r DBS yn ddiogel a'r wybodaeth a ddatgelir a'r rhwymedigaethau sydd arni o dan Reoliad Gwarchod Data Cyffredinol (2016/679 UE).
6. Bydd y Brifysgol yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ymarfer.

Y Polisïau a'r Gweithdrefnau Ategol

- Polisïau Disgyblu a Chwyno'r Staff
- Y Polisi Amddiffyn Plant
- Polisi'r Contractau Cyfnod Penodol
- Y Polisi sy'n ymwneud â Diogelu, Storio a Chadw Datgeliadau / Gwybodaeth am Gofnodion Troseddol Ymgeiswyr/Staff
- Y Polisi Recriwtio a Dewis - Y Gweithdrefnau Ategol
- Y Polisi Moeseg Ymchwil
- Polisi Preifatrwydd y Brifysgol
- Polisi a Gweithdrefnau'r DBS gan gynnwys y Polisi Preifatrwydd

Y Ddeddfwriaeth Berthnasol/Proses Llywodraeth/Fframwaith **(sy'n cynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt)**

- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau'r Llys 2000
- Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (2016/679 UE) (GDPR)
- Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011 (SI 2011/1064)
- Deddf yr Heddlu 1997
- Deddf Amddiffyn Plant 1999 a Deddf y Plant 2004
- Deddf Amddiffyn Rhyddid 2012
- Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr (Eithriadau) 1974
- Deddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Amddiffyn Rhyddid 2012
- Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiad) 2000
- Gwiriad Diogelwch Cenedlaethol (NSV)
- Deddf Terfysgaeth
- Deddf Gwrth-Derfysgaeth a Diogelwch 2015
- Deddf Terfysgaeth (Amddiffyn Safleoedd) 2025
- Deddf Safonau Gofal 2000
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Atodiadau

Atodiad 1
Gweithdrefn Wirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Atodiad 2
Gweithgaredd Rheoledig

Atodiad 3
Datganiad Polisi ar Recriwtio Cyn-droseddwyr

Atodiad 4
Polisi ynglŷn â Diogelwch, Storio a Chadw Datgeliad Ymgeisydd / Staff / Gwybodaeth am Gofnodion Troseddol

Atodiad 5
Siart Llif Gweithdrefn Wirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) - Penodiadau Newydd

Atodiad 6
Rolau a Chyfrifoldebau – Gwirwyr AD